**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

# GWERTHUSIAD INTERIM O'R RHAGLEN POBL MEWN CYMUNEDAU

## Diben

1.Hysbysu'r Pwyllgor o'r gwerthusiad interim o'r rhaglen Pobl Mewn Cymunedau a'r hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i ymateb iddo.

## Crynodeb

2. Mae'r argymhellion a'r casgliadau wedi eu nodi yn atodiad 2.

3. Er bod y casgliadau yn cymeradwyo natur arbrofol y rhaglen, canfuwyd hefyd nifer o ddiffygion a byddant yn cael eu cynnwys yng nghyd-destun yn rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.

## Cefndir

4. Lansiwyd rhaglen Pobl Mewn Cymunedau mewn wyth ardal ledled Cymru yn ystod haf 1998. Fe'i cynlluniwyd i arddangos y ffyrdd y gallai cymunedau sydd o dan anfantais greu newidiadau cadarnhaol. Yr oedd nodweddion allweddol y rhaglen yn cynnwys penodi Cydlynydd Ardal, dyrannu arian ar gyfer prosiectau penodol, sefydlu Bwrdd Partneriaeth a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr cymunedol a statudol, a datblygu Cynllun Gweithredu er mwyn adfywio.

5. Comisiynwyd y gwerthusiad interim o'r rhaglen Pobl Mewn Cymunedau ym mis Hydref 2000 fel rhan o'r cynllun gweithredu ar gynhwysiad cymdeithasol a gefnogwyd gan y Cynulliad ym mis Ionawr 2000. Cwblhawyd y gwerthusiad gan Ymgynghorwyr Polisi Caergrawnt / Cambridge Policy Advisors. Bwriad y gwerthusiad oedd archwilio'n fanwl y ffordd yr oedd y rhaglen yn cael ei chyflwyno yn yr wyth ardal arbrofol, ei chynllun, y strwythurau cefnogol sydd mewn lle, y trefniadau monitro a'r effeithiau hyd yn hyn. Bwriad yr astudiaeth oedd cael gwybodaeth ar gyfer unrhyw gynlluniau adfywio cymunedau yn y dyfodol, gan gynnwys Cymunedau'n Gyntaf.

6. Darganfu'r gwerthusiad bod amcanion y rhaglen yn addas gan eu bod yn edrych y tu hwnt i gynllun cyfyngedig y rhaglenni adfywio cymunedol traddodiadol, drwy geisio dylanwadu ar y modd y darperir gwasanaethau prif ffrwd a'r lefelau o gynhwysiad cymunedol. Serch hynny teimlwyd nad oedd nifer o elfennau allweddol y rhaglen, gan gynnwys y broses ymgeisio a'r canllawiau a gyhoeddwyd, y trefniadau contractio a'r strwythurau rheoli a chefnogi o fewn y

Cynulliad Cenedlaethol, yn rhoi cefnogaeth ddigonol i'r dull newydd hwn o weithredu.

7. Er gwaetha'r diffygion hyn, canfu'r gwerthusiad bod y rhaglen wedi cael llwyddiannau mawr hefyd, megis symbylu'r broses dysgu ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol ac eraill, galluogi'r rhai hynny sydd eisoes yn symud i'r cyfeiriad hwn i fynd gam ymhellach, tynnu pobl ynghyd am y tro cyntaf, yn enwedig y swyddogion hn ar Fyrddau lleol, denu symiau sylweddol o arian Ewropeaidd ac arian o ffynonellau eraill a chefnogi gweithgareddau sydd wedi cychwyn trafodaethau gyda thrigolion lleol.

8. Rhoddwyd ystyriaeth i ganfyddiadau'r gwerthusiad, a ddangoswyd ar ffurf drafft i swyddogion cyn ei gyhoeddi, wrth ddatblygu Cymunedau'n Gyntaf.
9. Mae'r prosiectau Pobl Mewn Cymunedau sydd eisoes yn bodoli mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn gymwys ar gyfer derbyn cyllid. Hefyd mae'r Cynulliad wedi trefnu adnoddau 'pontio'ar gyfer y prosiectau Pobl Mewn Cymunedau hynny sydd wedi methu â derbyn cyllid hyd yn hyn a bydd yn edrych ar ffyrdd o gefnogi'r prosiectau hynny nad ydynt wedi eu lleoli mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

**Themâu Trawsbynciol**

10. Mae mynd i'r afael ag anfanteision cymdeithasol yn un o brif themâu trawsbynciol y Cynulliad.

**Argymhelliad**

11. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r gwerthusiad.